

Y cyfrifiad – her i wleidyddion a'r Gymraeg

Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn her i wleidyddion, llunwyr polisi, y byd academiaidd a'r cyhoedd, yn ôl Rhys Jones o Adran Ddaeryddiaeth Prifysgol Aberystwyth.

Mae cyfrifiad 2011 wedi rhoi digon i ni fel Cymry gnoi cil yn ei gylch gan roi her amlwg i wleidyddion a llunwyr polisi yng Nghymru i ddarganfod ymatebion polisi dychmygus ac effeithiol i'r dirywiad ieithyddol a welwyd dros y ddeng mlynedd ddiwethaf.

Y prif bennawd ieithyddol yw'r ffaith fod canran y siaradwyr Cymraeg wedi disgyn o 21% i 19% o'r boblogaeth. Wrth astudio'r niferoedd absoliwt, mae'r ffigurau o bosib ychydig yn llai brawychus. Dim ond lleihad o 14,000 a fu yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 (o 576,000 i 562,000).

Y rheswm dros y gwahaniaethau yn y ffigurau hyn yw'r cynnydd sydd wedi bod ym mhoblogaeth Cymru er 2001 (i fyny 5% i 3.1 miliwn). Mae cynnydd o'r fath, wrth gwrs, yn ei gwneud hi'n anos i gynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad y Gymraeg.

Er bod y ffigurau absoliwt yn cynnig rhywfaint mwy o gysur na'r canrannau, maent ill dau yn destun pryder mawr i garedigion yr iaith. Maent hefyd yn ffigurau sy'n ein gorfodi i gwestiynu effeithiolrwydd polisïau ieithyddol y Llywodraeth, polisïau a fu gyda'r bwriad tan yn ddiweddar o gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg i 26% erbyn 2011.

Her i'r Fro Gymraeg

Yn ogystal â'r dirywiad cyffredinol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg, dangosodd canlyniadau'r cyfrifiad fod patrymau ieithyddol diddorol a heriol yn bodoli ar raddfeydd mwy lleol.

Mae her gynyddol yn wynebu'r iaith Gymraeg yn y Fro Gymraeg; yr ardaloedd o Gymru lle ceir canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg. Cafwyd rhai o'r canlyniadau mwyaf trychinebus yn Sir Gaerfyrddin, lle gwelwyd gostyngiad o dros 6% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg (o 50.3% yn 2001 i 43.9% yn 2011).

Mae'r rhesymau dros y newid ieithyddol hwn

yn gymhleth, gan gynnwys dirywiad yn nifer y plant a'r oedolion sy'n dewis siarad Cymraeg, mewnfudo'r di-Gymraeg i'r Fro Gymraeg ac allfudo'r siaradwyr Cymraeg o'r Fro Gymraeg.


Amcangyfrifir bod rhwng 1,200 a 2,000 o siaradwyr Cymraeg rhugl yn gadael Cymru bob blwyddyn, gyda nifer ohonynt yn dod o'r Fro Gymraeg.

Unwaith eto, rhaid holi ynghylch effeithiolrwydd ymatebion polisi i heriau o'r fath. Nodwyd gan Gymdeithas yr Iaith yn ddiweddar mai dim ond 16 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg – asesiadau y mae'n bosibl i awdurdodau cynllunio eu cynnal er mwyn darogan beth fydd dylanwad datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg – a gynhaliwyd yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ni chynhaliwyd un o'r asesiadau hyn yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion, er mai yn y ddwy sir hon y gwelwyd rhai o'r gostyngiadau mwyaf yng nghanrannau'r siaradwyr Cymraeg.

Yn yr un modd, rhaid holi a ydy polisi'r Llywodraeth ar gyfer ariannu addysg uwch – lle ceir nawdd ariannol i helpu Cymry i astudio yng Nghymru a Lloegr – yn ffordd o annog Cymry Cymraeg galluog i aros yng Nghymru?

Newid yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul awdurdod lleol, 2001 i 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

173a.12-13

Technoleg a Ddaeryddiaeth

© Hawffraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2012.

Rhif Trwydded yr Arolwg Ordians 100021874.



Awgryma'r ddwy enghraifft nad oes defnydd llawn yn cael ei wneud o'r arfau polisi presennol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ac nad ydy'r Gymraeg wedi ei phrif-ffrydio go iawn i mewn i benderfyniadau polisi'r Llywodraeth.

Twf yn y de-ddwyrain – nid yw'n achubiaeth

Un nodwedd fwy cadarnhaol yng nghyd-destun y cyfrifiad yw ymddangosiad posibl broydd Cymraeg newydd yn ne-ddwyrain Cymru. Mae cynnydd wedi bod yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd (i 36,735), Sir Fynwy (i 8,780) a Chaerffili (i 19,251),



Mae'r ffigurau hyn yn galonogol ac yn destament i gyfraniad ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r broses o fywiocáu'r iaith mewn ardaloedd lle nad oes lle amlwg wedi bod iddi hyd yn ddiweddar. Yn ogystal, cuddia'r ffigurau hyn y patrymau llawer mwy cadarnhaol sy'n bodoli mewn ambell ardal benodol y tu mewn i'r siroedd hyn, megis yn Nhreganna yng Nghaerdydd.

Eto i gyd, rhaid cofio bod y canrannau a'r niferoedd absoliwt o siaradwyr Cymraeg a welir yn y siroedd hyn yn dal i fod yn llawer is nag y maent mewn siroedd i'r gorllewin a'r gogledd.

Er y dirywiad mawr yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, mae mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg yno yn dal i fod (78,048) nag yn nhair sir y de-ddwyrain (64,766).

Golyga hyn, efallai, na ddylid ystyried y cynnydd

ieithyddol a welwyd yn siroedd y de-ddwyrain fel achubiaeth bosib i'r iaith.

Angen mwy o wybodaeth am newid patrymau iaith

Yn ôl canlyniadau cynnar cyfrifiad 2011, mae nifer o batrymau ieithyddol daearyddol amlwg i'w gweld yng Nghymru. Ond mae'n werth ystyried yr hyn na all y cyfrifiad ei ddangos i ni ynghylch daearyddiaeth yr iaith Gymraeg.

Mae'r cyfrifiad yn adnodd sy'n ein helpu ni i ddeall patrymau ieithyddol yn unig. Nid yw'n rhywbeth sy'n ein galluogi i ddeall rhyw lawer am y prosesau sy'n achosi newid ieithyddol. Pa fath o dystiolaeth sydd angen ei gywain er mwyn dehongli prosesau o'r fath?

Mae'r cyfrifiad yn cyfleu daearyddiaeth statig iawn, heb ystyried bod pobl bellach yn byw bywydau symudol dros ben. Golyga hyn, wrth gwrs, fod llawer o'r hyn sy'n cyfrannu at ddirywiad neu gynhaliaeth iaith yn digwydd y tu hwnt i'r wardiau neu i'r siroedd lle mae'r unigolion sy'n ymateb i'r cyfrifiad yn byw. Beth yw goblygiadau dealltwriaeth o'r fath ar gyfer ymatebion polisi i newid ieithyddol?

Nid oes gan y cyfrifiad y gallu i ddirnad y ddaearyddiaeth bob dydd lle mae pobl yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa iaith y dylid ei siarad.

Efallai ei bod yn werth i ni ystyried yr hyn ddywedodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, ychydig cyn cyhoeddi canlyniadau cynnar y cyfrifiad, sef bod angen i ni ddeall pam mae unigolion yn dewis siarad Saesneg er eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Rhaid wrth ymchwil pellach – trwy gyfweiliadau, grwpiau ffocws ac arsylwi – er mwyn deall pam mae plant yn dewis siarad Saesneg ar iard yr ysgol yn hytrach na'r Gymraeg, neu pam mae criw o ffrindiau canol oed yn dewis siarad Saesneg yn y dafarn yn hytrach na'r Gymraeg.

Mae'r cyfrifiad yn adnodd defnyddiol ar gyfer dadansoddi sawl elfen o ddaearyddiaeth yr iaith Gymraeg ond nid yw, o bosib, yn ein galluogi i ddeall rhai o'r prosesau mwy cymhleth sydd angen eu dirnad os ydym am lwyddo yn yr ymdrech i gynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae angen arolwg gwahanol ac ymateb polisi gwahanol er mwyn cyflawni'r dasg anodd hon.

Ffynhonnell

Golwg

Cyrol 25, Rhif 17, Ionawr 10, 2013, tt. 6-7
(© Hawffraint Golwg)